| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad** | 22 Chwefror 2024 |
| **Teitl** | Strategaeth Llifogydd Lleol |
| **Aelod Cabinet** | Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones |
| **Awdur** | Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg ac YGC |
| **Pwrpas** | Cyflwyno copi drafft o'r strategaeth Llifogydd Lleol |

**1. Cyflwyniad**

1.1 Mae newid yn ein hinsawdd yn cael effaith sylweddol ar lifogydd a graddfeydd erydiad gan i lefelau môr fod yn codi a stormydd a chyfnodau o law trwm yn mynd yn fwy dwys ac yn digwydd yn fwy rheolaidd.

1.2 Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur ac mae'r cynllun yn cyfeirio at sut yr ydym fel Cyngor am ymateb i effeithiau newid hinsawdd, sydd yn cynnwys effeithiau llifogydd. Bydd y Strategaeth Llifogydd Lleol a'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn cyd-redeg, ac yn helpu i wireddu ein nod.

1.3 Mae Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yn golygu llawer mwy nag adeiladu amddiffynfeydd. Mae ein dull o reoli risg yn annog gwydnwch ehangach, gwaith atal ac ymwybyddiaeth o risg fel bod modd gwneud penderfyniadau gwell, gan y cyhoedd a'r rhai sy'n dylanwadu ar sut y rheoli'r tir a dŵr.

1.4 Mae Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yn un o ofynion y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 ac mae'n rhaid iddynt fod yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol a gyhoeddwyd y llynedd. Bydd gofyn i ni adolygu Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yng Nghymru (er y rhai gwreiddiol yn 2013) er cyd-fynd ag amcanion, mesurau a pholisïau a deddfwriaeth gysylltiedig y Strategaeth Genedlaethol newydd.

Rydym angen cwblhau'r dasg yma erbyn Gwanwyn 2024.

**2. Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol**

2.1 Yn Hydref 2022, fe rannwyd gyda'r Pwyllgor y bwriad o ystyried risgiau mewndirol ac arfordirol ar wahân o fewn y Strategaeth newydd. Mae hyn oherwydd:

- natur y risg a'r gallu i'w liniaru;
- gwahaniaeth mewn rolau/cyfrifoldebau statudol a goddefol;
- polisïau a strategaethau (gan gynnwys rhai asiantaethau eraill) ynghyd a gwahaniaethau yn strwythur ariannu prosiectau gan Lywodraeth Cymru.

2.2 Ym mis Tachwedd 2023 rhannwyd adrannau gwahanol o'r Strategaeth gyda'r pwyllgor, gan gynnwys rhestr o amcanion strategol sy'n sail i'r ddogfen, ynghyd â rhestr gyfatebol o gamau gweithredu a ddatblygwyd i alluogi gwireddu'r amcanion dros gyfnod y strategaeth.

**3. Trefniadau/Gweithdrefnau Newydd**

3.1 Rydym nawr mewn sefyllfa i rannu fersiwn drafft o'r Strategaeth Leol ynghyd â fersiwn gryno o'r ddogfen (gweler Atodiadau 1, 2 a 3). Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y brif ddogfen fel a ganlyn:

- Cyflwyniad, gan gynnwys pwrpas y Strategaeth
- Sut mae'r strategaeth yn ymateb i newid hinsawdd
- Cydgysylltu h.y. aliniad â pholisïau a chynlluniau eraill
- Rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli perygl llifogydd
- Mesurau a ddefnyddir gan Gyngor Gwynedd i reoli risgiau
- Crynodeb o lifogydd hanesyddol yng Ngwynedd
- Crynodeb o risgiau llifogydd ac erydu arfordirol yng Ngwynedd
- Amcanion a Chamau Gweithredu Strategol
- Ariannu
- Rhaglenni Gwaith
- Monitro cynnydd
- Effeithiau amgylcheddol

3.2 Bydd ymarfer ymgynghori 6 wythnos yn cychwyn ar 26/02/2024 ac yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn ceisio barn y cyhoedd ac awdurdodau a sefydliadau partner ar gynnwys y Strategaeth, yn enwedig y meysydd canlynol:

- Ystyried newid hinsawdd ar beryglon llifogydd ac erydu arfordirol
- Eglurder o rolau a chyfrifoldebau
- Dulliau a ddefnyddir i amcangyfrif risgiau llifogydd ac erydu arfordirol
- Addasrwydd amcanion a chamau gweithredu
- Dulliau a gynigir i ddatblygu rhaglenni gwaith cyfalaf.

**4. Materion sydd wedi codi o'r Pwyllgor Blaenorol (30ain Tachwedd 2024, eitem 6.1)**

4.1 Awgrymwyd yn ystod y pwyllgor blaenorol y gallai'r risg o lifogydd priffyrdd gael effaith sylweddol ar ein cymunedau (e.e. atal mynediad i'r gwasanaethau brys) a bod angen i'r Strategaeth fynd i'r afael â'r risgiau hyn yn ddigonol.

Mewn ymateb, mae'r Strategaeth bellach yn cynnwys cam gweithredu penodol ynghylch perygl llifogydd i'n rhwydwaith priffyrdd (Cam Gweithredu 2.3A) sy'n darllen fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| *Cam Gweithredu 2.3A* | *Cynnal astudiaeth i adnabod ardaloedd o rwydwaith priffyrdd y sir sydd fwyaf agored i lifogydd ac a fydd yn wynebu risg uwch o ganlyniad i effeithiau newid hinsawdd yn y dyfodol*<br><br>Mae atal mynediad i ardaloedd poblog yn ystod stormydd yn risg sylweddol i'n cymunedau ac felly mae angen dealltwriaeth dda o beryglon llifogydd hirdymor i'r rhwydwaith priffyrdd fel y gellir ystyried mesurau i liniaru'r risgiau hyn. |

Pwysleisiwyd hefyd yr angen i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r angen i baratoi ar gyfer llifogydd mewn ardaloedd lle mae'r risg ar ei uchaf, a pha fesurau y gellir eu defnyddio i leihau perygl llifogydd.

4.2 Mae codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd ac erydu arfordirol yn un o'r Amcanion Strategol a restrir yn y ddogfen ac mae cyfres o gamau gweithredu cysylltiedig wedi'u cynnig yn unol â hynny. Yn ogystal â'r camau gweithredu hyn rydym bellach wedi cynnwys cyfeiriadau clir yn y ddogfen at ffynonellau gwybodaeth ar gyfer perchnogion eiddo sydd mewn perygl o lifogydd, gan gynnwys gwefan y Fforwm Llifogydd Cenedlaethol, ac adrannau penodol o wefannau Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru.

**5. Camau Nesaf**

5.1 Bydd y broses ymgynghori yn cychwyn ar 26 Chwefror am gyfnod o 6 wythnos, ac ar ôl ei chwblhau bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi cyn ystyried unrhyw newidiadau i'r Strategaeth.

| | |
|---|---|
| Adrodd i'r Pwyllgor Craffu | 22.02.24 |
| Ymgynghori ar y Strategaeth | 26/02/2024 am 6 wythnos |
| Mabwysiadau'r Strategaeth | Gwanwyn 2024 |

5.2 Yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Craffu Cymunedau bydd unrhyw sylwadau sydd gan y pwyllgor yn cael eu cyflwyno i sylw'r Cabinet.